**Claire Homard**
Chief Officer (Education and Youth)
Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid)

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

Rieni a Gofalwyr

| | |
|---|---|
| Your Ref/Eich Cyf | |
| Our Ref/Ein Cyf | CH |
| Date/Dyddiad | 17 Rhagfyr 2020 |
| Ask for/Gofynner am | Claire Homard |
| Direct Dial/Rhif Union | 01352 704190 |

Annwyl Rieni a Gofalwyr

**Trefniadau Ysgolion ar gyfer mis Ionawr 2021**

Yn sgil cyhoeddiad Llywodraeth Cymru am gyfyngiadau newydd i Gymru ar ôl y Nadolig, mae penderfyniadau cenedlaethol wedi'u gwneud hefyd am ddarparu addysg pan fydd ysgolion yn ailagor ym mis Ionawr.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi gwybod i awdurdodau lleol y bydd angen dull mwy hyblyg er mwyn darparu ar gyfer cynnydd posibl o ran cyfraddau trosglwyddo'r feirws, yn enwedig ar ôl gwyliau'r Nadolig lle bydd mwy o deuluoedd wedi cymysgu â'i gilydd. Maen nhw wedi cynghori ysgolion i wneud fwy o ddefnydd o ddulliau dysgu o bell yn ystod wythnosau cyntaf y flwyddyn newydd, gyda'r disgwyliad y bydd ysgolion yn dychwelyd i ddarparu dysgu wyneb i wyneb erbyn 18 Ionawr, oni bai bod amgylchiadau eithriadol.

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi penderfynu, trwy ymgynghori â'i Benaethiaid ac yn unol â chyngor Llywodraeth Cymru, na fydd ysgolion Sir y Fflint yn ailagor ar gyfer dysgu wyneb i wyneb ar gyfer yr wythnos sy'n dechrau 4 Ionawr 2021 a bydd yn darparu dysgu ar-lein i'r disgyblion i gyd.

Mae gofyn i ysgolion sicrhau darpariaeth briodol i ddysgwyr diamddiffyn, a gallai hyn olygu bod angen i rai disgyblion fod yn bresennol yn yr ysgol. Mae gofyn hefyd i bob ysgol sicrhau darpariaeth yn yr ysgol i blant gweithwyr allweddol, lle nad oes dewisiadau eraill o ran gofal plant ar gael. Mae'n hanfodol bod gweithwyr allweddol, fel y'u diffinnir gan Lywodraeth Cymru, yn gallu cyflawni eu rolau tra bydd ysgolion yn darparu dysgu'n ddigidol.

Bydd pob ysgol yn cysylltu â rhieni i nodi pa blant allai fod angen parhau i fynychu'r ysgol yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion sicrhau bod gofal plant ar gael rhwng 8.30am a 4.00pm o leiaf. Gan weithio o fewn y rheoliadau a nodir gan Lywodraeth Cymru, bydd darpariaeth i blant gweithwyr allweddol ar gael yn ysgolion Sir y Fflint erbyn dydd Mercher, 6 Ionawr, fan bellaf. Nid oes gofyn i ysgolion sicrhau darpariaeth os yw'n ddiwrnod a ddynodwyd ar gyfer hyfforddiant ysgolion.

Ni chaiff penderfyniad ei wneud am pa bryd i symud ysgolion yn ôl i ddarparu dysgu wyneb i wyneb tan 6 Ionawr, pan fydd y data lleol am y feirws wedi'i ddadansoddi a lefel y risg wedi'i phenderfynu. Caiff rhieni wybod am hyn cyn gynted ag sy'n bosibl. Nod y Cyngor yw

County Hall, Mold. CH7 6ND
www.flintshire.gov.uk
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6ND
www.siryfflint.gov.uk

YN GADARN O BLAID · POBL ANABL · POSITIVE ABOUT DISABLED PEOPLE

The Council welcomes correspondence in Welsh or English
Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg

dychwelyd i ddysgu wyneb i wyneb cyn gynted ag sy'n bosibl, ond dim ond pan fydd hi'n ddiogel i wneud hynny.

Rydym yn sylweddoli bod y wybodaeth hon yn eich cyrraedd ar fyr rybudd, ond dim ond o fewn y 24 awr ddiwethaf mae'r Cyngor wedi cael gwybod am benderfyniad Llywodraeth Cymru. Bydd plant sydd â hawl i Brydau Ysgol am Ddim yn parhau i gael taliadau uniongyrchol ar gyfer y cyfnod dysgu o bell. Caiff rhagor o fanylion eu rhannu cyn gynted ag sy'n bosibl am drefniadau arlwyo ar gyfer plant sydd angen mynd i'r ysgol naill ai fel dysgwr diamddiffyn neu ar gyfer trefniadau gofal plant. Pan fydd ysgolion wedi penderfynu ar eu trefniadau agor ar gyfer mis Ionawr, oherwydd mae diwrnodau hyfforddiant wedi'u trefnu ar gyfer rhai ohonynt, byddwn yn gallu rhannu trefniadau ar gyfer plant sy'n gymwys i gael cludiant i'r ysgol a bydd angen asesu a fyddant yn mynd i'r ysgol am y rhesymau a amlinellir uchod.

Disgwylir i bob dysgwr gael yr un ddarpariaeth ddysgu gan eu hysgol, p'un a fyddant adref ac yn dysgu o bell, neu os oes angen iddynt fod yn yr adeilad.

Rydym yn sylweddoli y gallai'r penderfyniad hwn achosi pryder, a bydd rhai cwestiynau gennych, rydym yn gweithio'n galed gyda'n penaethiaid ar ddiwrnod olaf y tymor i sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer dechrau didrafferth, diogel, i'r flwyddyn newydd a byddwn yn parhau i ddarparu gwybodaeth i rieni a gofalwyr trwy lythyrau gan ysgolion ac ar ein gwefan www.siryfflint.gov.uk.

Yn ddiffuant

Claire Homard
Prif Swyddog, Addysg ac Ieuenctid

Y Cyng. Ian Roberts
Arweinydd y Cyngor a'r
Aelod Cabinet Addysg